

Cyngor Cymuned LLANBRYNMAIR Community Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Nos Fercher, 6ed Mis Rhagfyr 2023

Presennol

Cynghorwyr – E Davies (Cadeirydd), D Jones, F Cauley, E Lewis, B Jones, I Edwards, S Evans, R Ashton, G Davies a G Mitchell (Powys)

Ymddiheuriadau - P Jones

Cynnigiodd y Cadeirydd, E Davies, croeso cynnes i bawb ac ymestynodd R Ashton gair o gydymdeimlad iddo fo ar rhan y Cyngor am farwolaeth ei fam yn ddiweddar

Cyflwyniadau –

Datganiadau diddordeb – R Ashton ynglyn a Cynllunio

Cytuno Cofnodion y cyfarfod blaenorol ar 1af Tachwedd 2023

Pawb yn gytun

Materion yn codi

1. Parcio ceir ym mhentref Llan - Mae F Cauley a S Reast wedi cwrdd ar y safle ac mae S Reast wedi ymweld a Bernard o hen Siop Llan i trafod yr her ymarferol. Cyflwynwyd cynllyn o'r safle yn dangos fod angen ychydig o waith adeiladu cyn gallu gosod banc ac hysbysfwrdd. S Reast i cysylltu efo Tony Evans
2. Cais am llwybr seiclo o gwmpas y Cae Cymunedol - Cyflwynwyd dyfnbris o £2200 i torri'r coed o amgylch y cae i'r ysgol. Cyтынwyd i rhannu'r costau. S Reast i gofyn i'r pennaeth gwneud cais ffurfiol i Ymddiriedolaeth y Fferm Wynt. Cafwyd cyfarfod gyda S Reast, B Jones, R Ashton, G Davies a Bethan Jones (Pennaeth) ar y cae i drafod y sietyн. Penderfynwyd peidio defnyddio'r coed colldail o Woodland Trust gan fod yna draen ar rhai ohynynt ac ni fyddent yn rhoi preifatrwydd yn ystod y gaeaf. Trafodwyd defnyddio 'leylandii' neu coed fawydd. Roedd R Ashton wedi cael pris da iawn am coed fawydd ac maent yn well i'r byd natur
3. Cynnig ail agor y gorsaf rheilffordd yn Llanbrynmair - Cynnigwyd tynu'r mater oddi ar y cofnodion gan nad oes mwy i'r Cyngor cyfrannu at y trafodaeth onni bai bod grwp o'r gymuned am greu pwyllgor ymgyrch
4. Cyfleusterau cyhoeddus - Mae rhai o'r pibellau wedi byrstio yn y to ac wedi achosi l'r nenfwd yn toiledau'r dynion i gwmpo lawr. Rhaid cau y toiledau tan fydd y problemau wedi trwsio. S Reast i casglu dyfnbrisiau gan yr arbennigwyr perthnasol. Mae'r cwmni paneli solar wedi ymweld a'r safle ar y 22ain o Tachwedd, nid ydynt yn teimlo fod yna mantais sylweddol i gosod paneli yna ond yn hapus i rhoi mwy o ystyriaeth iddo os oes angen.
5. Hysbysfwrdd - Cadarnhawyd fod hysbysfwrdd newydd wedi ei archebu i Bont. Tradfodwyd safle i hysbysfwrdd yn Llan o dan 1. I Edwards i edrych ar hysbysfwrdd Talerddig
6. Offer diffibrilwyr yn ardal Llanbrynmair - Mae diffibrilwr newydd wedi ei osod yn Nhafolwern. I Edwards wedi derbyn offer i Dolfach. Nid oes diweddariad ar lleoliad diffibrilwr Bont eto wedi i'r garej cael ei brynu
7. Ystyried offer newydd yn y Cae Chwarae - Cais loteri ar y gweill. S Reast i gwneud ymholiadau gyda ALTechnical am offer CCTV ac i cadw llygaid ar 'PAVO Funding Checker' ar gyfer gronfeydd ariannol i cyfrannu at prosiectau

8. Sietyn wrth Pont Bel – S Reast wedi ysgrifennu at perchnogion Ty'n Ddol ond dim wedi derbynateb. S Evans i gwneud ymholiadau eto
9. Carthion yn yr afonydd – Dim diweddariad sylweddol
10. “Concealed entrance”, Maes yr Efail – B Jones a R Ashton i helpu gosod postyn metal yn ei le ar gyfer drych
11. Station House, Talerddig – G Mitchell i gwneud ymholiadau ynglyn a cyfarfod arall ar y safle
12. Biniau ar gwaelod ffordd Bryneinty – S Reast i ysgrifennu at Powys eto gan copio G Mitchell i mewn
13. Lloches Bws Dolfach – S Reast wedi cydlynnu cyfathrebiad rhwng perchnogion Faenol a Traws Cambria. Cynnigwyd y gall rhai Cynghorwyr cwrdd a'r peirianwyr ar y safle
14. Gerddi fler yn Rhif 2 a 13, Glanlegyr – Mae'r problemau wedi ei ddatrus a tenantiad newydd yn paratoi at symud i mewn
15. Tocio'r shetyn a mieri yn Bont – Gwaith ar y gweill gan Josh Reast – Dim diweddariad
16. Bainc yn Dolfach – Mae'r beinciau newydd wedi cyrraedd un i Dolfach ac un i Llan. S Reast wedi gofyn am caniatad gan Powys i leoli bainc ar tir yn Dolfach. E Lewis i ofyn i Tony Evans am pris
17. Sied wedi torri yn y cae chwarae – Rhaid aros am tywydd sych i symud y sied
18. Hysbysfwrdd yn Nhalerddig – Ni lwyddodd F Cauley i agor yr hysbysfwrdd. I Edwards i edrych arno fo eto – dim diweddariad
19. Ymateb i'r rali – S Reast wedi ysgrifennu at y trefnwyr yn gofyn am gwell cyfathrebiad gyda trigolion lleol y tro nesaf ond dim wedi derbyn ateb
20. Arwyddion baw cwn – Mae'r arwyddion wedi cyrraedd ac wedi cael eu dosbarthu
21. Coed peryglus ar y ffordd tua croesfan Bont – S Reast wedi trafod efo perchnogion y tir. Maent yn ymwybodol o'u dyletswydd i monitro'r coed ac i gwneud unrhyw waith tocio pan fydd angen
22. Llwybr o Dolfach i Llanbryn-mair ac i troiad Tafolwern – Gofynwyd i G Mitchell cadw llygaid allan am unrhyw gronfeydd ariannol perthnasol. S Reast i ysgrifennu at Russel George AS a Cefin Campbell AS
23. Sul y Cofio – Cyflwynwyd llythyr o ddiolch gan y Poppy Appeal am £63.00
24. Sbwriel yn y Parc – Cynnigwyd y syniad o gofyn i'r tim 'probation' i ddod i glirio

Materion ffyrdd

- Llinellau gwyn wrth Yr Efail a Bryn-coch – G Mitchell wedi derbyn cadarnhad gan Powys na fyddent yn gwneud y llinellau tra fydd rheini ar y ffordd newydd yn cael eu gwneud ond fydd y gwaith ar ei rhestr arferol
- Cyflymder traffig ar y briffordd i mewn i'r pentref – S Reast wedi derbyn cadarnhad gan GoSafe y byddent yn mesur cyflymder traffig yn y pentre ac yn cyflwyno'r canlyniadau wedyn
- Yr A470 a goleuadau wrth Dolgoch – Cyflwynwyd drafft o lythyr i Russel George AS yn gofyn am manylion am cynllyniau ar gyfer gwelliannau i'r A470 ac hefyd i'r ffordd trwy Bont pan fydd y gwaith yn cael ei gwneud yn y dyfodol
- Pont wedi ei tharo yn Bont – Mae gan tim peirianeg Powys amserlen o monitro pontydd

- Biniau Halen – Rhaid paratoi at tywydd drwg
- Goleuadau – Mae angen tocio'r coed o gwmpas golau cyferbyn a Pengeulan. Golau wrth troiad Bryncoch yn fflachio
- 'Gullies' cyferbyn a'r Felin wrth troiad Cwm Ffynnon – Dydy Powys ddim yn cyhoeddu ei amserlen gwaith ond yn cadarnhau y bydd glanhau 'gullies' ar ei rhestr
- Cerrig gwyn wrth ymyl Ffordd Pandy – E Davies i fynd ar daith gyda G Mitchell i edrych ar y problemau
- Ffordd yn disgyn islaw Lluest – E Davies i fynd ar daith gyda G Mitchell i edrych ar y problemau
- Draen wrth yr Hen Gapel – S Reast wedi ysgrifennu at Powys ac wedi cwrdd a E Lewis ar y safel i weld y problemau. E Davies i fynd ar daith gyda G Mitchell i edrych ar y problemau
- Pen draw ffordd Pandy – E Davies i fynd ar daith gyda G Mitchell i edrych ar y problemau
- Gwreiddiau ar y ffordd ar ol gwaith fesydd wrth Penfilltir - E Davies i fynd ar daith gyda G Mitchell i edrych ar y problemau
- Ffordd yn disgyn wrth Craig yr Henffordd - E Davies i fynd ar daith gyda G Mitchell i edrych ar y problemau
- Pyst gwyn ger ffordd Pandy – R Ashton i ddanfôn cyfeiriad What3Words i G Mitchell. E Davies i fynd ar daith gyda G Mitchell i edrych ar y problemau

Adroddiad ar lafar gan Cyng Gary Mitchell (Cyngor Sir Powys)

Gohebiaeth

- Llythyr o ddiolch gan Ambiwlans Awyr

Cynllunio

- 23/1591/FUL, Change of use of land for siting of 2no glamping pods together with associated works, Cwm Y Ffynnon Llanbryn-mair SY19 7DY - Cefnogwyd
- 23/1631/HH, Proposed Single Storey Extension, Fronlwyd Bont Dolgadfan Llanbryn-mair SY19 7A - Cefnogwyd

Cyfriflen a balans ariannol

Ar gael ar 23/11/2023

Cyfrif Cyfredol	£3507.30
Cyfrif Cadw	£2,899.01
Cyfanswm	£6406.31
Sieciau heb eu cyflwyno	£
Balans ar gael	£6406.31

Ceisiadau a thaliadau ariannol

Dyddiad cytunwyd	Eitem	Cyfanswm	Rhif y cheque	Nodiadau
06/12/23	Cyflog y Clerc	£368.00		
06/12/23	Treth ac NI ar cyflog y Clerc (Gorffnaf)	£92.00		
06/12/23	S Reast – Torch a cerdiau	£31.48		
06/02/23	Timberkits - Post	£53.00		
06/12/23	E.ON Next	£16.75 £16.98		
06/12/23	Arfon Hughes - Gwasanaethau cyfieithu	£140.00		
06/12/23	Hafren Dyfrdwy	£597.42		
06/12/23	Aztec Print	£112.80		
06/12/23	Un llais Cymru - Hyfforddiant	£19.00		
06/12/23	A C Evans – Glanhau toiledau	£500.00		

Unrhyw fater arall

Eitemau ar gyfer yr agenda nesaf

- F Cauley – Arwyddion cyflymder wrth croesfan Dolgadfan
- G Davies – Cyflwr ffordd Cwmcarnedd
- I Edwards – Cyflymder traffig yn Nhalerddig
- D Jones – Cyflymder traffig ar gornel Wynnstay
- G Davies - Cerbyd ar llinellau gwyn wrth troiad B4518 i'r A470

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Fercher 3ydd Ionawr 2024

Cynhelir y cyfarfod canlynol ar Nos Fercher, 7fed Chwefror 2024

Sarah Reast

Clerc i Gyngor Cymuned Llanbryn-mair